WG35 5.24

# GALAR-GAN

O GOFFADWRIAETH AM

# MR. JONATHAN DAVIES,

PREGETHWR CYFRIFOL

PERTHYNOL I'R

PENTRE-TY-GWYN, CEFN-ARTHAN, a BETHEL;

YR HWN

A ymadawodd â'r fuchedd bresennol Mawrth y 12fed, 1831, yn y 35 o'i oedran, wedi llafur diwyd yng Ngwinllan ei Arglwydd 12 mlynedd; ac a gladdwyd yng Nghefn-Arthan yr 16 o'r un mis.

---

GAN BRUTUS.

---

"Gofid sydd arnaf am danat ti, fy mrawd Jonathan."

LLANYMDDYFRI:

ARGRAFFWYD GAN D. R. a W. REES, SWYDDFA'R EFANGYLYDD.

1831.

X2053079B0

# GALAR-GAN.

1 PEN-RHEOLWR, Llywodraethwr,
  Cadarn Ddeddfwr ydyw Iôr,
I holl luoedd glwys y nefoedd,
  Byd a dyfroedd dyfnion môr;
Ei amcanion ydynt gyson,
  Tuag at ddynolion llawr,
Gweinyddiadau'i ragluniaethau
  Ynt effeithiau'r arfaeth fawr.

2 Holl drigolion byd yn gyson,
  Dan ei goron mae pob llun,
'Nol ei 'wyllys gwna yn ddilys,
  Mewn modd medrus i bob un;
Ni wneir estyn un munudyn
  At y terfyn sy i'w hoes,
Wedi'r tadau rifo'u dyddiau,
  Ef i angau oll a'u troes.

3 Y mae'r teulu yn cynnyddu,
  Sy o fewn y lletty llaith,
Y mae angau, teyrn arswydau,
  Yn dra diwyd gyda'i waith;
Yng nghromgellau duon gafnau
  'R bedd, y mae miliynau 'nawr,
Yn gorphwyso heb un teimlad,
  Hyd yr adgyfodiad mawr.

4 Myrdd o langciau yn eu blodau,
  Sy yn awr yn cym'ryd hûn,
Heb un tegwch na phrydferthwch,
  Ond cymmysg-lwch gwael dilun;
A'r gwyryfon mwyaf prydlon,
  Fyrdd orphwysant 'nawr mewn hedd,
Heb eu cyffro, yng ngwlad ango,
  Oll yn huno yn y bedd.

5 Gyda'r teulu'n cyd-gymmysgu,
Obry yn y briddell ddu,
Ac yn gwywo 'nawr mewn amdo,
Y mae cyfaill hoff a chu;
Angau digllon a ddaeth heibio,
I ddyrnodio hwn i lawr,
A'r adeilad hoyw syrthiodd,
Yn rhyferthwy'r storom fawr.

6 Jonathan Dafis, athro medrus
Geiriau Duw am flwyddau maith,
A ddiengodd o'r tymhestloedd,
Gan gyrhaeddyd pen ei daith;
Haul ei fywyd a fachludodd,
Pan gyrhaeddodd hanner dydd;
Ac o'i golli mae niferi
O ffyddloniaid 'nawr yn brudd.

7 'Nol cynlluniau a threfniadau
Arfaeth forau'r Brenin mawr,
Chwythwyd bywyd idd ei yspryd,
T'wynodd arno nefol wawr;
Yn ei fynwes rhoed yn gynnes
Farwor tanllyd allor Duw,
O waelodion pyllau dyfnion
Codwyd ef i'r lan yn fyw.

8 Yr awelon pêr hyfrydlon
Ddaethant o Galfaria 'mla'n,
Nes i Dafis yn dra hwylus
Brofi melus wres y tân;
Rhoes ei hunan oll yn gyfan
I wasanaeth pur ei Dduw,
Ac o'i lwybrau ef ni thröai
At deganau tra fu byw.

9 Yn dra buan tröai allan,
Yn y Winllan weddus wiw,
I gyhoeddi doniau Iesu,
A dyrchafu gras ei Dduw;
Ar y caerau ef a safai,
A chyhoeddai'n uchel ma's,
Am oludoedd mawr y nefoedd,
A dyfnderoedd moroedd gras.

10 Yn y Pentre', yn y Cefen,
Ac yn Bethel lawer gwaith,
Bu'n traddodi'r gennadwri,—
Crist a'i holl drysorau maith;
Ac yn Salem yn Llanddyfri
Bu'n cyhoeddi doniau'r groes,
Mawredd person y Messia,
Ing a gwasgfa'i angau loes.

11 Yn ardaloedd llon Llanwrtyd
Y diferodd wlith y nef,
Lle mae ffryndiau 'nawr mewn galar
Am ei ymadawiad ef;
Cofir yng nghym'dogaeth Tabor
Am odfeuon melus iawn,
Pan o dan y wawr nefolaidd,
Rhoed mynwesau gwag yn llawn.

12 Deuddeg mlynedd yn gyfannedd
Bu'n anrhydedd mawr i'r gwaith,
Ac ni pheidiodd gyda'i orchwyl
Nes gorphenodd ef ei daith;
Daliodd faniar fawr y nefoedd,
Bloeddiodd gongcwest Iesu glân,
A chymhellai bawb o'r llwythau
'Wneud eu gorau'i dynnu 'mla'n.

13 Fel pregethwr ac esboniwr,
A myfyriwr geiriau Duw,
Un tra medrus ydoedd Dafis,
Tra fu yn y byd yn byw;
Ac o'i enau ni ddiferai
Amgen geiriau gweddus iawn,
Ei 'madroddion oent yn gyson
Am drysorau gras yn llawn.

14 Ond er doniau, addurniadau,
A mwynderau o bob rhyw,
Angau elyn a'i cyrhaeddodd,
Rhoddodd iddo farwol friw;
Er ymdrechion pob meddygon,
Trwy eu mhoddion i'w wellhau,
Lawr i'r gromgell 'r aeth y babell,
Am nad ydoedd i barhau.

15 Yn ei gystudd 'roedd yn ufudd,
I drefniadau mawr y nef,
Gair o'i enau ni ddywedai
'N groes i'w ragluniaethau ef;
'R athrawiaethau a bregethodd
Ef i'r bobloedd ym mhob man,
Oent ei gysur dan ei ddolur,
Pan yn llesgaidd iawn a gwan.

16 Pan y crynent y colofnau,
Ac y deuai'r tŷ i lawr,
Pan yn swn pistylloedd cryfion
Afon yr Iorddonen fawr;
Bloeddiai maes ei fuddugoliaeth,
"Iechydwriaeth gwaed yr Oen,"
Cafodd forau mewn gororau,
Heb ddim loesau mwy na phoen.

17 Ar adenydd gwawr y bywyd
Hedeg wnaeth ei yspryd ef,
Heibio i emmau'r uchelderau,
Goleuadau mawr y nef;
Trwy y llennyrch pell wybrennol,
Dros y caerau cedyrn fry,
Yr ehedodd tuag adreu,
At y lluoedd yno sy.

18 Y mae'i ddagrau a'i ofidiau
Yn ganiadau llon yn awr,
Mae ei degwch a'i brydferthwch
Fel llewyrchiad borau wawr;
Anfarwoldeb mewn newydd-deb,
Welir heddyw yn ei wedd,
Ac mae'n canu'n uchel uchel
Glodydd i Dywysog hedd.

19 Peidia golau y llusernau,
Hauliau a lleuadau llon,
Sycha'r dyfroedd yn y moroedd,
Cyn darfyddo'r anthem hon;
Melus ydyw'r Haleluia
A ddyrchafa ef i'w Dduw,
Peraidd hefyd ydyw'r adsain,
Yn y breswyl deg a gwiw.

20 Ond yng ngwaelod distaw'r beddrod,
Mae ei babell ef yn awr,
Mewn ystafell gul a thywell,
Lle ni ddont belydrau'r wawr;
Mwy nis gwelir mewn areithfa,
Mae ei dafod wedi'i gloi
Yn y gadwyn fawr haiarnaidd,
Rwyma fel nad dichon troi.

21 Ond daw borau tawel golau,
Ffy cymmylau du y bedd,
Dryllir llyffetheiriau angau,
Daw myrddiynau maes mewn hedd;
Bloeddia udgorn mawr y Duwdod
Uwch y beddrod yn y man,
Codir miloedd o'r tommennau
A'r pydewau du i'r lan.

22 Er bod priod a pherth'nasau
'Nawr mewn dagrau ar ei ol,
Pe cai fyrdd o fydoedd cyfain
Ni ddychwelai attynt 'nol;
Y berthynas hoff a dorrwyd,
Rhwygwyd c'lymmau agos iawn,
Ac o'i golli mae mynwesau
Mewn gofidiau dwys yn llawn.

23 Y mae'r weddw a'i hymddifaid
Dan y llenni duon 'nawr,
A chan bwysau y gwasgfeuon
'Mron a chael ei llethu lawr;
Ond rhaid iddi hi foddloni
I drefniadau Bren'n nef,
A gofalu peidio rhoddi
Dim yn ynfyd iddo ef.

24 Tad ymddifaid bach a gweiniaid,
Barnwr gweddwon ym mhob man
Ydyw'r Duwdod mawr trag'wyddol,
Ef a'u cynnal oll i'r lan;
Rhodient hwythau yn ei ddeddfau,
Gan ei ddilyn trwy eu hoes,
Try eu hwylo hwy yn ganu,
Wrth ddynesu at y groes.

25 Y mae tad a mam-yng-nghyfraith
Wedi'u clwyfo'n hyn o waith,
Colli mab a cholli cyfaill
Fu'n y teulu flwyddau maith;
Gyda Morgans cyd-lafuriai,
Ond gwahanwyd hwynt yn awr,
Ac ni chyfarfyddant etto
Hyd lewyrchiad borau'r wawr.

26 Y mae tad a mam mewn llefain,
Ar ol plentyn anwyl cu,
Y mae brawd, y mae chwiorydd,
Mewn och'neidiau mawr yn llu,
Y mae eglwys Cefen-Arthan,
'Nghŷd â Phentref-y-tŷ-gwyn,
'Nawr mewn alaeth trwm a hiraeth,
Am y rhwygiad chwerw hyn.

27 Ond ewyllys fawr y Duwdod
Ydoedd ei symmudiad ef,
Gweddus iawn i bawb ymostwng
I drefniadau doeth y nef;
'N ieuangc daeth yn d'wysen addfed,
Ac â'r crymman dorrwyd 'lawr,
Er ei blannu mewn tir newydd
Draw yn nhrag'wyddoldeb mawr.

28 Byth nis gwelir ef ond hynny
Gyda'i deulu ar y llawr,
Nac mewn Pulpid yn cyhoeddi
Doniau Iesu'r Brenin mawr;
Nac mewn unrhyw gyfeillachau,
Gyda brodyr anwyl iawn,
Yn ymddiddan am y cariad,
Gynnwys ras y nef yn llawn.

29 Yn yr annedd ddu gorweddi,
Ac y llygri, gyfaill cu,
'Mron heb wybod un diwrnod,
'Th droed i'r beddrod oer a du,
Er pob doniau, addurniadau,
A gwybodau helaeth iawn,
'Wedi'i briddo yng ngwlad ango',
Heb ei gyffro yno cawn.

30 Bob munudyn y mae'n estyn,
Y meddylfryd llesgedd hwn,
At yr awr 'ro'it yn ymadael,
Ac yn gadael baich dy bwn;
Gwel'd dy lygaid llon yn pylu,
Gwel'd dy chwythu yn gwanhau,
Gwel'd yr oer-chwys ar dy ruddiau,
Twrf yr arfau'n chwarae'n glau.

31 'Roedd yn ddynyn llon a gwisgi,
Athraw heini' yn ei ddydd,
Ond yn awr mae wedi'i golli,
A than gloiau'r bedd yng nghudd;
Ac yr awrhon llygredigaeth
Yw ei etifeddiaeth ef,
Yn y gweryd y gorphwysa,
Nes disgyno Duw o'r nef.

32 Etto siglir caerau'r beddrod,
Dryllir teyrnas angau du,
Daw anwyliaid Iôr i fynu,
Mewn gogoniant mawr yn llu;
Gwisgant mwyach anfarwoldeb,
A theyrnasant mwy mewn hedd,
Wedi d'od yn rhydd o'r gadwyn,
A chael congcwest ar y bedd.

---

D. R. a W. Rees, Argraffyddion, Llanymddyfri.